Chartered Institute of Housing Cymru

# Cynllun tai i Gymru

Sicrhau y gall pawb gael mynediad at gartref addas, diogel a fforddiadwy.



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 4 |
| 1. Ymwreiddio'r hawl i dai digonol yng nghyfraith Cymru | 5 |
| 2. Mwy o gartrefi cymdeithasol a fforddiadwy | 6 |
| 3. Gwella ein cartrefi presennol a mynd i'r afael â thlodi tanwydd | 8 |
| 4. Mynd i'r afael â'r stigma sy'n gysylltiedig â thai cymdeithasol a hybu effaith gadarnhaol cymunedau amrywiol | 9 |
| 5. Gweithlu proffesiynol a gwydn | 10 |

# Rhagair

Daw etholiad y Senedd yn 2026 yn erbyn cefndir argyfwng tai sy'n gwaethygu yng Nghymru. Canlyniad gweladwy hyn yw'r lefelau cynyddol o ddigartrefedd gydag un o bob cant o aelwydydd yn colli eu cartrefi yn 2023/24. Mae 6,495 o aelwydydd yn byw mewn llety dros dro gan gynnwys 1,698 o aelwydydd â phlant. Mae nifer y bobl sy'n cysgu allan yn parhau i fod yn uchel iawn, gyda 131 o unigolion yn cysgu ar y strydoedd. Gellir priodoli'r lefelau cynyddol o ddigartrefedd i ddiffyg enbyd o lety fforddiadwy yng Nghymru. Ceir prinder tai cymdeithasol ynghyd â chwyddiant rhent preifat sy'n uwch na thwf enillion a chyfradd chwyddiant.

Yn ychwanegol at y prinder tai fforddiadwy yng Nghymru yw'r angen am ddatgarboneiddio ein stoc tai sy'n heneiddio, sydd ymhlith yr hynaf yn y DU ac Ewrop. Bydd yr uchelgais hon nid yn unig yn ein helpu i gyflawni ein huchelgeisiau sero net, bydd hefyd yn codi aelwydydd allan o dlodi tanwydd. Er mwyn ei wneud yn y ffordd fwyaf effeithiol, rhaid ei wneud yn y sector preifat a'r sector cymdeithasol fel rhan o ymagwedd system dai gyfan at ddatgarboneiddio.

Mae angen system dai gynaliadwy ar Gymru sy'n cefnogi agenda economi gylchol gan sicrhau y gall pawb gyrchu cartref diogel, addas a fforddiadwy, system dai deg lle mae stigma wedi'i ddileu, a gweithlu tai sy'n cael ei werthfawrogi.

Fel y dywedodd un cyfranogwr yn ein harolwg cipolwg ar y sector yn 2024:

> ***"Nid yw tai yn ôl-ystyriaeth. Dylai hyn fod yn un o'r blaenoriaethau pennaf yng Nghymru ac yn y DU. Gyda'r tai cywir ar gael, efallai y bydd yr angen am wasanaethau cymdeithasol ac iechyd yn lleihau. Mae'n bryd rhoi'r flaenoriaeth bennaf i dai."***

Dylai tai fod yn genhadaeth sylfaenol i'r llywodraeth. Cred CIH Cymru mai'r man cychwyn yw ymgorffori'r hawl i dai digonol yn neddfwriaeth Cymru.
Bydd ymagwedd sy'n seiliedig ar hawliau yn sbarduno newid system-gyfan i dai yng Nghymru a fydd yn mynd y tu hwnt i gylchoedd gwleidyddol, gan ddarparu ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol. Bydd ymgorffori'r hawl yng nghyfraith Cymru yn gweithredu fel catalydd a fydd yn creu Cymru lle gall pawb gyrchu cartref diogel, addas a fforddiadwy.





**Jonathan Morris**
Chair of the board CIH Cymru



# 1. Ymwreiddio'r hawl i gartref digonol yng nghyfraith Cymru

Er mwyn sicrhau mai tai yw cenhadaeth sylfaenol llywodraeth sydd arnom ei hangen, er mwyn mynd i'r afael â'r problemau strwythurol a systemig gyda'n system tai yng Nghymru cred CIH Cymru fod yn rhaid ymgorffori'r hawl i dai digonol yng nghyfraith Cymru.

Mae pobl Cymru'n cefnogi'r hawl gyfreithiol hon i dai, gyda mwy na thri chwarter o'r bobl a holwyd yn dangos eu cefnogaeth dros yr hawl. Ceir cefnogaeth eang hefyd gan y sector tai yng Nghymru, gyda mwy na dau draean o brif weithredwyr cymdeithasau tai'n llofnodi'r addewid i #CefnogirBil ar gyfer hawl gyfreithiol i dai. Ceir cefnogaeth drawsbleidiol dros yr hawl hefyd - siaradodd cynrychiolwyr o nifer o bleidiau'n gadarnhaol am yr hawl mewn trafodaeth yn y Senedd a gynhaliwyd ar 8 Ionawr 2025.

Mae papur gwyn amgen yr ymgyrch #CefnogirBil a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn amlinellu sut y gellid cyflwyno'r hawl i dai digonol yng Nghymru a sut y byddai hyn yn edrych. Yn gryno, byddai'r hawl yn:

- **Helpu rhoi hwb i'r cyflenwad tai**: Bydd yr hawl yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar y llywodraeth i adeiladu mwy o gartrefi a gwneud popeth o fewn eu pwerau i hybu cyflenwad y math cywir o gartrefi yn y lleoedd cywir.
- **Darparu arbediad costau-buddion**: Bydd yr hawl yn gwireddu gwerth £11.5 biliwn mewn buddion ar draws y pwrs cyhoeddus a chymdeithas yn erbyn costau amcangyfrifedig o £5 biliwn dros gyfnod o 30 mlynedd.
- **Helpu rhoi terfyn ar ddigartrefedd**: Dylai profiadau o ddigartrefedd fod yn brin, yn fyrhoedlog a heb ddigwydd eto. Mae'r hawl yn darparu cyfleoedd i wneud hyn ac ar yr un pryd cefnogi ymrwymiadau presennol ynghylch Tai yn Gyntaf ac ailgartrefu cyflym.
- **Helpu hyrwyddo Cymru deg**: Bydd gwireddu'r hawl yn raddol yn sicrhau y gall pawb, waeth beth fo'u nodwedd warchodedig, gyrchu cartref diogel, addas a fforddiadwy yn y lle iawn wrth i ni weithio tuag at Gymru fwy teg ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae angen i ni gychwyn o'r newydd gyda'n system dai yng Nghymru. Ers 2006, ar gyfartaledd dim ond 2.3 y cant o gyfanswm gwariant y llywodraeth yng Nghymru sydd wedi'i wario ar dai bob blwyddyn. Nid yw CIH Cymru yn credu bod y lefel hon o fuddsoddiad yn adlewyrchu graddfa'r argyfwng tai yr ydym yn ei wynebu.

Credwn mai'r man cychwyn ar gyfer cyrraedd y lefel o flaenoriaeth a buddsoddiad sydd ei angen yw deddfwriaeth i ymgorffori'r hawl yng nghyfraith Cymru. Credwn y bydd yn gweithredu fel catalydd i newid y patrwm, a sbarduno buddsoddiad a blaenoriaethu y tu hwnt i gylchoedd gwleidyddol a'r gagendor wleidyddol. Yn debyg iawn i'r ffordd y gwnaeth y ddeddfwriaeth a sefydlodd y GIG sbarduno blaenoriaethu a buddsoddi mewn darpariaeth gofal iechyd am ddim ar y pwynt darparu, rhywbeth sy'n parhau hyd heddiw. Nawr yw'r amser i fod yn uchelgeisiol a chyflwyno'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen i sicrhau y gall pawb yng Nghymru gyrchu cartref diogel, addas a fforddiadwy.

## 2. Mwy o gartrefi cymdeithasol a fforddiadwy

Mae Cymru yng nghanol argyfwng tai y mae'r dystiolaeth ohono'n cynnwys digartrefedd cynyddol, defnydd cynyddol o lety dros dro, prinder tai cymdeithasol lefelau cynyddol o anfforddiadwyedd rhentu preifat a pherchen ar dai. Yn 2023/24 roedd 13,539 o aelwydydd wedi'u troi allan, sy'n cyfateb i un o bob 100 o aelwydydd yng Nghymru. Dyma'r lefel uchaf ers i Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ddod i rym. Ym mis Medi 2024 roedd 6,495 o unigolion mewn llety dros dro gan gynnwys 1,698 o aelwydydd gyda phlant dibynnol. Mae'r data rhestri aros diweddaraf yn dangos yr oedd 94,000 o aelwydydd yn Haf 2024, gan gynrychioli tua 170,000 o unigolion sy'n aros am gartref cymdeithasol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys o leiaf 34,000 o blant. Ar gyfraddau cyflenwi presennol, byddai'n cymryd mwy na 35 mlynedd i ddarparu'r cartref sydd ei angen ar bob aelwyd. Mae'r lefelau cynyddol hyn o ddigartrefedd a'r niferoedd uchel o unigolion sy'n aros am gartref cymdeithasol yn symptomau gweladwy o'r argyfwng tai yng Nghymru.

Mae cost rhentu cartref yn breifat wedi cynyddu'n sylweddol ers diwedd y pandemig Covid-19. Mae rhenti yng Nghymru wedi codi 8.2 y cant rhwng Gorffennaf 2024 a Gorffennaf 2025. Mae hyn yn uwch na'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Gorffennaf 2026, sef 3.6 y cant. Er bod cost flynyddol rhent i'w gweld yn arafu, mae'n debygol bod prisiau uchel bellach yn rhan annatod o gost rhentu cartref rhent preifat yng Nghymru.

Yr hyn sydd ei angen yn y bôn yw ailosod y farchnad dai yng Nghymru. Un dull arfaethedig a amlinellwyd gan bwyllgor llywodraeth leol a thai'r Senedd yw sicrhau bod tai cymdeithasol yng Nghymru'n cyfrif am o leiaf 20 y cant o'r stoc tai fel ffordd o ailgydbwyso daliadaethau tai ledled Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod mwy o opsiynau tai i aelwydydd a bydd yn helpu cydbwyso prisiau o fewn y farchnad breifat.

Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, dywedodd dadansoddiad costau-buddion yr ymgyrch #CefnogirBil a gyflawnwyd gan Alma Economics y byddai angen 20,000 o gartrefi ychwanegol ar ben y targed o 20,000 o gartrefi presennol i gyflawni digonolrwydd tai i bawb yng Nghymru. Nododd y dadansoddiad costau-buddion hefyd mai £200,000 oedd cost gyfartalog adeiladu tŷ newydd yng Nghymru yn 2022. Gan addasu ar gyfer chwyddiant, byddai'r gost hon yn £222,884 ar brisiau heddiw. Gan dybio y bydd y targed presennol o 20,000 o gartrefi'n cael ei gyrraedd, rydym wedi defnyddio'r gost gyfartalog hon i amcangyfrif mai'r cyfanswm ymyriad grant tai cymdeithasol (gan dybio cyfradd ymyriad grant o 58 y cant) sydd ei hangen i ddarparu'r 20,000 o gartrefi ychwanegol yw £2.56 biliwn. Mae hyn yn cyfateb i leiafswm o £646 miliwn y flwyddyn pe baem yn ymrwymo i'r lefel hon o ddatblygiad dros dymor nesaf y Senedd neu £256 miliwn y flwyddyn dros y deng mlynedd nesaf.

Cyfanswm lefel y grant tai cymdeithasol a ddarperir yn nhymor presennol y Senedd yw £1.7 biliwn, cyfartaledd o £347 miliwn y flwyddyn, 40 y cant yn is na'r £646 miliwn yr ydym wedi'i gyfrifo y bydd ei angen i fodloni digonolrwydd tai yn nhymor nesaf y Senedd.

At hynny, mae Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai'r Senedd wedi datgan y bydd angen i ni ddatblygu 60,000 o gartrefi i ailgydbwyso daliadaeth tai a fforddiadwyedd ein cartrefi yng Nghymru. Gallai lefel y buddsoddiad ar gyfer datblygu'r cartrefi sydd eu hangen arnom fod yn llawer uwch na'r ffigur rydym yn ei amlinellu.

At hynny, mae ein gwaith ein hunain gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chwmpasu Academi Datblygu Cymru wedi nodi bwlch sgiliau arwyddocaol mewn timau datblygu awdurdodau lleol sy'n effeithio'n sylweddol ar gyflymder a graddfa datblygu cartrefi cymdeithasol. Byddai angen lefelau sylweddol o fuddsoddiad hefyd i lenwi'r bwlch sgiliau.

Ers cyfrifiad Alma Economics o'r angen am 20,000 o gartrefi ychwanegol, ar ben y targed o 20,000 gan lywodraeth Cymru i gyrraedd digonolrwydd tai yn y tymor Senedd hwn, mae'r cyd-destun tai ehangach wedi newid. Mae lefelau digartrefedd ar eu huchaf ers 2015, mae tai ar y farchnad yn mynd yn gynyddol anfforddiadwy ac mae'r defnydd o lety dros dro wedi gweld cynnydd o 189 y cant ers 2020. Ein cyfrifiadau cyfraniad ariannol yw'r lleiafswm buddsoddiad y mae'n debygol y bydd ei angen. Bydd angen cyfrifiad newydd o'r angen am dai i sicrhau ein bod yn adeiladu'r nifer cywir o dai cymdeithasol a fforddiadwy i ddod â'n hargyfwng tai i ben yn wirioneddol. Bydd hyn yn sicrhau y gall pawb gyrchu cartref diogel, addas a fforddiadwy.

Gallwn sicrhau ein bod yn darparu mwy o gartrefi drwy:

- Ailgyfrifo'r angen am dai i sefydlu gwaelodlin o angen nas diwallir yng Nghymru i warantu ein bod yn adeiladu'r nifer cywir o gartrefi i ddod â'n hargyfwng tai i ben.
- Diwygiadau ariannol
  - o Cynyddu lefelau grant i leiafswm o £646 miliwn y flwyddyn yn nhymor nesaf y Senedd i helpu datblygu cartrefi cymdeithasol a bodloni digonolrwydd tai
  - o Hyblygrwydd a sicrwydd tymor hwy mewn rhaglenni grant i alluogi cynllunio datblygu tymor hir
  - o Setliad rhent tymor hir.
- Diwygiadau tir a chynllunio
  - o Mynd i'r afael â chost tir sydd i'w ddatblygu
  - o Cynyddu capasiti awdurdodau cynllunio lleol
  - o Sefydlu asiantaeth datblygu hyd braich sy'n dwyn ynghyd strategaeth cydosod tir, cynllunio a dulliau adeiladwaith cyfoes.
- Mynd i'r afael â ffactorau eraill sy'n tanseilio'r cyflenwad
  - o Mynd i'r afael ag ail gartrefi
  - o Mynd i'r afael â'r cynnydd mewn rhenti preifat.



[1]DS: Mae'r ffigurau uchod yn seiliedig ar adeiladu o'r newydd yn unig. Fodd bynnag, gallai'r arian grant fynd ymhellach pe baent hefyd yn cael eu defnyddio i adfer eiddo gwag i ddefnydd. Ar ben hynny, cyfradd gyfartalog yr ymyriad grant cyfredol yn ôl Archwilio Cymru yw 78 y cant. Byddai'r lefel hon o ymyriad grant yn golygu y gallai fod angen mwy o fuddsoddiad gan lywodraeth Cymru nag y mae ein cyfrifiadau'n ei awgrymu.

# 3. Gwella ein cartrefi presennol a mynd i'r afael â thlodi tanwydd

Adeiladwyd 32% o gartrefi Cymru cyn 1919, gyda dim ond 6% wedi'u hadeiladu yn y 35 mlynedd diwethaf. Mae gan gartrefi yng Nghymru dystysgrif perfformiad ynni gyfartalog o "D" a bydd angen y lefel uchaf o fuddsoddiad i gyrraedd sgôr tystysgrif EPC "C". Safon ansawdd tai Cymru 2023 (SATC 2023) yn nodi disgwyliad y bydd landlordiaid cymdeithasol yn llunio cynllun ynni trosiannol i ddangos sut y byddant yn dod â'u cartrefi i fyny i sgôr tystysgrif EPC "A".

Mae llywodraeth Cymru wedi darparu £95 miliwn yng nghyllideb 2025/26 i ddatgarboneiddio cartrefi presennol. Yn ystod dwy flynedd flaenorol y cyfnod adolygu gwariant, dyrannwyd £92 miliwn y flwyddyn. Ac eto, amlinellodd ymchwil a wnaed gan New Economics Foundation mai cyfanswm y buddsoddiad y byddai ei angen i ddatgarboneiddio ein stoc tai cymdeithasol yng Nghymru yw £5.52 biliwn dros 10 mlynedd gyda bwlch ariannu amcangyfrifedig o £2.7 biliwn ar adeg cyhoeddi'r adroddiad.

Cyhoeddwyd yr ymchwil hon yn 2021 a chan ddefnyddio cyfrifiannell chwyddiant Banc Lloegr mae'r cyfanswm lefel o fuddsoddiad, o ran cyllid llywodraethol a phreifat y byddai ei angen ar brisiau heddiw i lenwi'r bwlch ariannu yn debygol o fod yn agosach at £3.28 biliwn dros ddeng mlynedd neu tua £328 miliwn y flwyddyn.

Nododd adroddiad New Economics Foundation y byddai angen i Lywodraeth Cymru fuddsoddi £1.7 biliwn dros y cyfnod 10 mlynedd hwnnw, sef tua £170 miliwn y flwyddyn. Gan ddefnyddio'r un gyfrifiannell chwyddiant Banc Lloegr, byddai angen bellach i'r buddsoddiad gan lywodraeth Cymru fod tua £2.1 biliwn dros gyfnod o ddeng mlynedd. Sef tua £210 miliwn y flwyddyn.

75 y cant yw'r gwahaniaeth canrannol rhwng lefel y buddsoddiad sydd ei angen a'r buddsoddiad a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Felly, byddai angen cynnydd sylweddol mewn lefelau buddsoddiad gan lywodraeth Cymru er mwyn cyflawni ei chyfran o'r cyfanswm buddsoddiad sydd ei angen.

Mae angen i ni ystyried hefyd sut y byddwn yn datgarboneiddio'r sector preifat, sy'n cyfrif am 84 y cant o stoc tai Cymru. Amlinellodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith y Senedd yn eu hadroddiad ar ddatgarboneiddio'r sector preifat fod angen opsiynau ariannol i berchnogion-feddianwyr a landlordiaid preifat sy'n dymuno gwella effeithlonrwydd ynni eu heiddo. Cynnydd cyfyngedig sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i ddatblygu atebion ariannol ar gyfer y sector preifat.

Bydd datgarboneiddio ein cartrefi'n gwella'r sgôr ynni ac yn sicrhau bod aelwydydd yn gallu cyrchu cynhesrwydd fforddiadwy, rhan allweddol o SATC 2023. Bydd ôl-osod eiddo dwy ystafell wely i gyrraedd EPC A o sgôr gyfartalog Cymru o EPC D yn arbed £909 y flwyddyn ar gyfartaledd ac yn helpu i godi'r aelwyd allan o dlodi tanwydd.

Er mwyn sicrhau y gallwn ddatgarboneiddio ein stoc tai bresennol ar draws daliadaethau mae angen y canlynol arnom:

- Sicrwydd cyllido tymor hir er mwyn i'n landlordiaid cymdeithasol ddatgarboneiddio eu cartrefi
- Cymhellion ariannol i'r sector rhentu preifat a pherchnogion-feddianwyr ddatgarboneiddio eu heiddo a fydd yn helpu ysgogi galw yn y farchnad gan ostwng prisiau ar draws y sector tai
- Buddsoddi mewn uwchsgilio ein crefftau a'n cadwyni cyflenwi i gau'r bwlch sgiliau ar gyfer datgarboneiddio ein cartrefi
- Datblygu cadwyni cyflenwi lleol i helpu lliniaru cost gynyddol deunyddiau adeiladu.

# 4. Mynd i'r afael â'r stigma sy'n gysylltiedig â thai cymdeithasol a hybu effaith gadarnhaol cymunedau amrywiol

Mae agweddau negyddol o hyd yng Nghymru tuag at dai cymdeithasol a all effeithio'n negyddol ar ein gallu i ddatblygu digon o gartrefi yn effeithiol oherwydd gwrthwynebiad i ddatblygu cartrefi cymdeithasol newydd mewn rhai ardaloedd. Gall hyn yn ei dro effeithio ar ein gallu i ddiwallu'r galw presennol am gartrefi cymdeithasol yng Nghymru. Credwn fod angen camau mwy cydlynol i fynd i'r afael â'r stigma hwn. Gallai hyn gynnwys:

- Rhaglen addysg chwalu mythau sy'n canolbwyntio ar "pwy" yn y gymuned a allai fod ag anghenion tai a phwysigrwydd darpariaeth tai cymdeithasol i ffurfio rhan o ymgyrch genedlaethol i roi terfyn ar y stigma ynghylch tai cymdeithasol
- Sicrhau bod iaith gyson yn cael ei defnyddio ym maes tai cymdeithasol wrth ryngweithio â chymunedau lle mae cartrefi cymdeithasol newydd yn cael eu datblygu
- Datblygu canllaw terminoleg gyffredin fel rhan o safoni'r iaith a ddefnyddir ym maes cartrefi cymdeithasol
- Gwella dealltwriaeth o beth yw tai cymdeithasol a'r effaith gadarnhaol y gall ei chael fel rhan o adeiladu cymunedau.

Mae'r hawl i dai digonol yn rhan allweddol o newid y naratif am dai cymdeithasol yng Nghymru a helpu hyrwyddo effaith gadarnhaol cymunedau amrywiol. Nid yw'r hawl i dai digonol yn ymwneud â hawl yn unig, mae'n ymwneud ag ymagwedd gyfannol at dai, gan gynnwys ei ddefnyddio fel bloc adeiladu i wella cymdeithas. Bydd yr hawl yn mynd i'r afael â gwahaniaethu ac yn sicrhau cydraddoldeb – gan gynnwys mesurau cadarnhaol i sicrhau mynediad at dai a dileu gwahaniaethu ym maes tai. Os byddwn yn gweithio tuag at sicrhau bod gan bawb yng Nghymru gartref diogel, addas a fforddiadwy, ni all hyn ond meithrin tegwch ar draws daliadaethau tai. Yr hawl yw'r mecanwaith allweddol i sicrhau Cymru deg ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.



# 5. Gweithlu proffesiynol a gwydn

Un cam allweddol yn y [cynllun gweithredu digartrefedd]() yw adeiladu gweithlu gwydn sy'n cael ei werthfawrogi a'i gydnabod am ei arbenigedd. Er i ni gefnogi hyn yn llwyr, teimlwn y dylai fod gennym uchelgais ehangach. Credwn y dylai'r sector tai, fel proffesiynau allweddol eraill, gael ei ystyried yn golofn allweddol i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac y dylai'r rhai sy'n gweithio ym maes tai gael eu hystyried yn weithwyr proffesiynol gan y gwasanaeth cyhoeddus ehangach.

Gan hynny, nawr yw'r amser i lywodraeth nesaf Cymru ddatblygu, mewn partneriaeth â CIH Cymru a'r sector ehangach yng Nghymru, strategaeth gweithlu ar gyfer gweithwyr tai proffesiynol gyda'r nod o ddiwallu anghenion y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ac ar yr un pryd cefnogi'r gwaith o gyflawni uchelgeisiau sero net Llywodraeth Cymru, gan gynhyrchu gweithlu sy'n dangos:

- **Cyfanrwydd**: Gweithlu sy'n gwneud y peth iawn am y rhesymau iawn, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a heb ragfarn.
- **Cynwysoldeb**: Gweithlu cydweithredol sy'n gweithio gyda phartneriaid, cwsmeriaid a chymunedau i gyflawni canlyniadau gwell.
- **Moeseg**: Gweithlu sy'n deall yr effaith y gall penderfyniadau gwael ei chael ar fywydau pobl ac enw da eu sefydliad. Herio arfer anfoesegol mewn ffordd deg.
- **Gwybodaeth a sgiliau**: Sicrhau bod gwybodaeth yn adnodd a rennir a nodi'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn i sector tai modern weithio'n effeithiol.
- **Arweinyddiaeth**: Gweithlu sy'n flaengar ei feddylfryd ac yn gallu addasu i newid. Hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol. Can leadership be put in bold.
- Bydd strategaeth gweithlu hefyd yn helpu hyrwyddo a chynhyrchu: **Dewis gyrfa**: Adnabod llwybrau i mewn i'r proffesiwn, gan greu camau gweithredu i gynnal a thyfu'r rhain ymhellach.
- **Data cadarn**: Cywain data i ategu'r strategaeth, nodi unrhyw fylchau mewn sgiliau ac adeiladu darlun cliriach o'r proffesiwn tai yng Nghymru.

Mae ein cyfres o gipolygon ar y sector wedi bod yn glir - mae pobl yn gweithio ym maes tai i wneud gwahaniaeth dros unigolion a chymunedau. Ac eto maent o dan bwysau cynyddol i ddiwallu'r galw yn erbyn cefndir o adnoddau sy'n lleihau, yn ariannol ac o ran maint y gweithlu. Gyda 40 y cant o'r ymatebwyr i'n cipolwg ar y sector 2025 yn nodi bod diffyg adnoddau'n bwysau sylweddol yn eu rôl bresennol.

Mae hon wedi bod yn thema gyffredin ers i ni ddechrau cyhoeddi'r adroddiadau hyn yn ystod y pandemig Covid-19. Mynegwyd pryderon hefyd bod gweithio mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma yn arwain at drawma dirprwyol, gan effeithio ymhellach ar iechyd meddwl, lles a gwydnwch y gweithlu.

Mae angen strategaeth gweithlu arnom sy'n:

- Darparu llwybrau gyrfa
- Adlewyrchu amrywiaeth ehangach Cymru
- Meithrin arbenigedd
- Cynyddu capasiti
- Helpu datblygu gwydnwch





Chartered Institute of Housing
Cymru

I drafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â gwaith CIH Cymru a sut y gallwn gefnogi eich sefydliad chi, cysylltwch â:

**Matthew Dicks,** cyfarwyddwr cenedlaethol CIH Cymru
matthew.dicks@cih.org
02475 312018

---

**Liza Fleming**, rheolwr ymgysylltu CIH Cymru
liza.fleming@cih.org
02475 312016

---

**Cerys Clark**, rheolwr polisi a materion cyhoeddus CIH Cymru
cerys.clark@cih.org
07939 302 566

---

0416 © CIH. All rights reserved.